**Arddangosfa Gelf, Dylunio a Thechnoleg**
**Sylwadau gan ymwelwyr i'r arddangosfa**

Dydd Llun 25 Mai

Pobl talentog iawn yng Nghymru. Pleser i weld yr amrywiaeth o waith plant ysgol. Da iawn a diolch.

Mi fydde sawl un o'r lluniau yn addas i galeri celf.

Profiad ardderchog. Diolch yn fawr Eisteddfod yr Urdd Caerffili.
Tomos Sparnon.

Gwledd i'r llygaid. Wedi mwynhau mas draw. M.Llyr Hughes.

**Da iawn, safon uchel iawn, da i weld bod dal amser gyda'r athrawon a'r disgyblion i gefnogi'r Eisteddfod. Dal ati.** V.A. Williams.

High standard. A lot of time taken to do things. Reminds me of YFC.

Diolch – ishe cael eglurhad ar y briff/cwestiwn i bob cystadleuaeth ond braf cael gweld rhai o'r lluniau wedi cael eu fframio. Diolch.

Arddangosfa wych, gwell na'r un yn y Genedlaethol!! Da iawn chi. Nan a Gwyndaf.

**Amazing exhibition. Loved the progression photos.**
Ceri, Anthony + Lydia.

Arddangosfa hyfryd, chwaethus – a chelfyddydol iawn! Sdim rhyfedd gyda Gwyneth wrth y llyw! Gwen a Gwyn.

*Wrth fy modd gyda'r crochenwaith gwreiddiol, dwi'n hoff iawn o ailgylchu yn y byd celf, sy'n dilyn ymlaen i waith Tomos Sparnon yn peintio ar hen fyrddau ysgol. Hyfryd!*
Elin Kate, Keri a Iola.

Arddangosfa lliwgar wedi ei osod yn arbennig. Hoffi fel mae pob peth yn cael ei arddangos mewn ffram. Wedi mwynhau mynd o amgylch. Diolch. G.E.Williams.

ARDDANGOSFA FENDIGEDIG SY'N DATHLU HOLL WAITH CALED PLANT CYMRU! SYNIADAU GWREIDDIOL GWREFREIDDIOL!! DA IAWN WIR!
Rhianydd James.

Arddangosfa wych, syndod gweld cymaint o allu a thalent sydd gan blant Cymru.
Eirlys Leader.

Celf hyfryd, llawer mwy o sgil na allai byth gobeithio am! Sion.

Gwaith diddorol a deniadol. Llawer o ddoniau amrywiol a llygad dda. Geraint.

J'ai beaucoup apprecie. P'accueil des Gallois, belle exposition.
S'ebastien.

Fabulous displays of work. Particularly love the children's work!

Da iawn wir. Gwerth ei gweld.
Carys.

Rydyn ni wedi mwynhau edrych ar yr holl arddangosfa. Gwaith ardderchog.

**Arddangosfa hyfryd. Mae yma dalent arbennig. Gellir dysgu cryn dipyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ar sut i blesio cynulleidfa mewn arddangosfa celf a chrefft!**

MAE DYFODOL DISGLAIR I CELF A CHREFFT DAN OFAL YR IFANC.

Gwych! Mi fyswn i'n gallu hongian sawl un ar wal y lolfa!

Mwynhau yn fawr iawn. Y fath ddychymyg. Gwych iawn – mae celf a diwylliant yn ddiogel yng Nghymru – paehaed y nawdd a'r gofal.

Gwych. Syniadau gwreiddiol a chreadigol.

V.good. Enjoyed. Diolch.

Dychymyg byw gyda'n ieuenctid. Digon o le i weld pob darn o waith ar ei orau. Diolch.

*A marvellous display! Very interesting. Diolch.*
Elle & Megan Loveridge.

AMAZING, SO IMPRESSED WITH ALL OF THE WORK. THOROUGHLY ENJOYED THIS! K.Loveridge.

**Gwaith ardderchog! Artistiaid talentog iawn!**

***Am arddangosfa fendigedig – mor lliwgar. Plant talentog iawn!***

Arddangosfa arbennig a'r safon yn rhyfeddol o uchel – gweithiau o fri.

We enjoyed our visit and think the standard of work is excellent. Thanks.

Mae'n wych.

MAE GAN GYMRU BOBL IFANC TALENTOG IAWN.
POB LWC IDDYN NHW I GYD YN Y DYFODOL.
C.Williams.

Arddangosfa o'r safon uchaf a'r croeso yn wych hefyd. Diolch.

Dydd Mawrth 26 Mai

Gwaith hyfryd. Diolch.

Arddangosfa wefreiddiol. A maent yn dweud fod safonau yn y byd addysg wedi dirywio. Ha Ha! Eleri Betts.

**Gwaith andros o dalentog gan lawer o bobl.**

Gwaith penigamp ac wedi arddangos yn broffesiynol iawn. Diolch.

Hollol, hollol wyyych! Mae gennym artistiaid yn tyfu a ffynnu yng Nghymru. Braf i'w gweld.
Martyn Geraint.

***Gwych!***
David Hughes, Wrecsam.

**ARDDANGSOFA ARBENNIG - GWERTH YMWELD Â HI YN DDYDDIOL I'W GWIR WERTHFAWROGI.**
Dafydd Islwyn.

**Gwerth gweld yr arddangosfa.** M.O. Bowen.

*Safon uchel, da iawn!!*

**Arddangosfa wych.**

***Gwaith bendigedig yma. Llongyfarchiadau pob celf ifanc Cymru.***

Llongyfarchiadau i holl blant Cymru – campwaith. Arddangosfa sy'n deilwng ond y iaf.

Gwych! Cymaint o dalent a gwaith caled. Diolch am waith gwefreiddiol a llongyfarchiadau i bawb.
Sian John.

Roedd e'n wych. Maria.

*Thema arbennig iawn ac oherwydd arddangosfa wych.* David Kevin Davies.

**Ardderchog unwaith eto. Talentau mawr wedi'u harddangos.**
Y Prif Weinidog, Carwyn Jones.

Gwaith arbennig o dda. Pleser i weld gwaith o'r fath safon. E.Richards.

Gwaith da iawn – ffotograffiaeth arbennig. Huw Euron.

*Cymaint o ddychymyg!! Safon uchel iawn ymhob agwedd o Gelf a Chrefft.*

*Arddangosfa chwaethus, apelgar i'r llygad sy'n denu pobl i'r corneli i arsylwi ymhellach. Llongyfarchiadau ar arddangosfa gampus. Dyma'r ffordd ymlaen. Seremoni arbennig.*
Eirian Pritchard.

Arddangosfa arbennig wedi ei chynllunio yn ddestlus iawn. Llongyfarchiadau ar arddangosfa weladwy a chelfydd dros ben. Da iawn bawb. Seiriol Evans.

*Waw! Am arddangosfa o safon uchel - syniadau arbennig a dychmygus. Staff llawen a chroesawgar tu hwnt. Popeth wedi ei drefnu yn wych. Diolch.*

Delyth o Lanrwst.

Arddangosfa anhygoel. Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill, dod yn ail/trydydd. Wedi mwynhau edrych ar y gwaith celf arbennig. Gwych!

***Amazing, so much talent, well worth coming just to see the talent on display – made my day. Da iawn.***

Dim wedi gweld cystal ers llawer dydd, dim eisiau mynd o ma!

**Wedi rhyfeddu'n llwyr!! Llongyfarchiadau anferthol. Campweithiau sy'n chwa o awyr iach. Diolch o galon i'r Pwyllgor am eu gwaith caled ofnadwy.**

V.Jones

Dydd Mercher 27 Mai

*Arddangosfa fendigedig!*

*Arddangosfa chwaethus a lliwgar. Gwych!* Margaret Francis.

Ardderchog. Safon uchel, gwaith wedi eu cyflwyno yn hyfryd. Llongyfarchiadau i blant ac athrawon.

Yr arddangosfa yn werth ei gweld. Croeso cynnes hefyd.

Da iawn a threfnus.

Marwen Thomas.

Arddangosfa hyfryd, wedi mwynhau gweld gwaith celf Tomos Owen Jones (Ysgol Twm o'r Nant). Diolch yn fawr.

Sian, Osiân, Tomos, Jacob, Eirwen ac Allan.

**Gwaith y Fedal yn fythgofiadwy a'r Ysgoloriaeth hefyd yn wych. Da gweld cymaint o waith da hefyd gan ddisgyblion lleol.**

Ben Jones.

*Wedi hoffi'r gwaith 3D gyda'r gwaith papur a'r llyfrau (Memosa) a Twr Rapynsel?! Gwych.*

Am arddangosfa! Ces i'm synnu gyda'r safonau anhygoel ymhob categori. Diolch o galon i bawb sy' wedi bod wrthi!! Gwych!! J.James

HYNOD, DWI DDIM WEDI GWELD ARDDANGOSFA MOR AMRYWIOL WEDI'I OSOD MAS MOR DDENIADOL ERIOED. MAE TORF MEWN 'MA YN DYST. SAFON EITHRIADOL. GWYCH.

M.D. Jones.

*Hyfryd o neis i weld person sydd yn gwneud portreadau yn ennill, yn ôl i'r trais traddodiadol. Gobeithio fod Eisteddfod Genedlaethol yn dilyn.* L. Edwards.

*Gymaint o waith talentog yma – braf i weld gwaith mor bleserus.*
V.Bowen

**Gwaith anhygoel, diddorol, fe hoffwn fod mor ddawnus. Diolch.**

Celf a Chrefft Eisteddfodol
"Yr Urdd" 1 – 0 "Y Genedlaethol"
Ann Hopcyn, Caernarfon

***Arddangosfa ardderchog sy'n adlewyrchiad o safon arbennig y gwaith sy'n cael ei arddangos. Da iawn chi.*** Eluned Davies.

**LLONGYFARCHIADAU I BAWB! ARDDANGOSAF ARBENNIG, YN SICR YN WERTH EI GWELD. POB DYMUNIAD DA I'R PLANT A'R BOBL IFANC A FU'N CYSTADLU A CHLOD MAWR IAWN I'R ENILLWYR!** Gill Griffiths.

**An inspiring exhibition of innovation, creativity and artistic excellence. Ardderchog!** Ken Skates AM.

Canmoladwy iawn!
E. Williams

**MWYNHAU YR ARDDANGOSFA YN FAWR. LLONGYFARCHIADAU BAWB.... AC MAE GAWITH TOMOS SPARNON YN WYCH!**
Rhun ap Iorwerth.

Arddangosfa wych. Mwynheais y profiad o gerdded o gwmpas. David Gwyn John.

Arddangosfa arbennig! Gwych.
Delma James.

Llawer o bethau gwych! Artistiaid talentog iawn. Da iawn bawb! J.Penny, Caerffili.

*Mae fy hoff yn yr adran "Apps". Gwaith caled ag ansawdd uchel. Da iawn i bawb.*
Andy o Gaerdydd.

**Bendigedig! Ond lot gormod o BLANT o gwmpas!**
Dewi Pws.

**Pethau bendigedig.**
Lynne o Lyn Ebwy.

Trawiadol iawn! Da.
Menna a Maryl, Penybont-ar-Ogwr.

**Arddangosfa hyfryd o waith celf!!** Catrin Lewis.

**Lluniau gogoneddus!!** N.Codd

Dydd Iau 28 Mai

*Arddangsofa ragorol yn dangos talent ardraws y fro a Chymru gyfan. Diolch i'r cyfranwyr a'r holl waith tu ôl i'r llwyfan sydd wedi gwneud yr arddangosfa mor drawiadol a llwyddiannus.* Carl Williams.

**Darnau arbennig yn dangos dychymyg anhygoel.** Rhian P.

Arddangosfa dda iawn. Da iawn plant Ceredigion. Llawn syniadau gwych. Sonia.

Arddangosfa wych! Amrywiaeth fendigedig yn arddangos talent aruthrol. Y cyfan wedi'i arddangos yn effeithiol. Diolch. Nia R.

When I walked around I was truly amazed by all the work that had been put into this exhibition. It's fab. But the young boy Tomos Sparnon's paintings really touch me, the ones on the desk, and your staff are very helpful in explaining things to me as an English speaker very little Welsh spoken. Christine Chater.

**Syfrdanol! Dyna'r unig air i ddisgrifio'r arddangosfa. Y safon yn frawychus o uchel.** Elan Griffith, Casnewydd.

Fantastic! Really special. Mesmerised by all the talent. Seren.

*Yr arddangosfa hon byth yn siomi – am waith godidog. Diolch.*

Mae'r arddangosfa yn wych, yn enwedig y lluniau ffotograffiaeth o'r llinell amser. Gwych!

DIDDOROL GWELD SUT MAE'R PLANT WEDI DEHONGLI'R THEMA, GWELL NA'R GENEDLAETHOL!!

Arddangsofa ysbrydoledig! Wedi ei osod yn ddeniadol ac yn wledd i'r llygad! Lynda a Meleri Thomas.

Dydd Gwener 29 Mai

**Gwaith ardderchog, pleser eu gweld. Gwaith clodwiw! Gwell na'r Genedlaethol.**

*Arddangosfa eithriadol o chwaethus. Gwaith o safon anhygoel ymhob cystadleuaeth.*
Jenni Jones-Annetts.

Lovely display. Standard of work very high.
Sally Stubbings.

Arddangosfa arbennig – mae talent rhyfeddol gan bobl ifanc Cymru! Patric.

Da iawn wir – wedi mwynhau yn enwedig yr adran ffotograffiaeth. Bethan.

SAFON UCHEL A GWAITH LLIWGAR A DAWNUS. YSBRYDOLEDIG!

**Ffantastig! Mae safon y gwaith yn anhygoel.**

Lle hyfryd i dreulio ychydig o amser yn hel meddyliau. Mair Roberts.

WEDI MWYNHAU EDRYCH AR YR ARDDNGOASFA TALENTOG. MAE'R YMDRECH YN AMLWG. Julie Palmer.

Arddangosfa ardderchog. Llongyfarchiadau i'r trefnwyr a'r cystadleuwyr. A dan iawn am wobrwyo o'r llwyfan. Angen sylw ar yr ochr celfyddydol. Glenys Evans.

**Braf gweld bod creadigrwydd y genedl yn dal i ffynnu**.
Anthony Evans.

Braf gweld gwaith arbennig gan holl blant Cymru. G. Davies

Pethau ardderchog y weld, o safon uchel dros ben. Gwych!
S.Stephens.

*Gyda'r diolch mwyaf am y Croeso a hefyd y cyngor gwerthfawr a dderbyniais - "ôl gwaith caled pawb". Diolch a dewch i'r Fflint yn 2016.*
Marian.

Wedi mwynhau gweld y celf, ac yn hoffi'r ffotograffiaeth yn arbennig.
Olwen Thomas.

Mae'r gwaith yn wych, a'r arddangosfa yn werth ei gweld. Llongyfarchiadau i'r enillwyr a'r rhai fu'n gyfrifol am osod yr arddangosfa.

Arddangosfa wych fel arfer. Bob amser yn mwynhau ymweld â'r gwaith celf diddorol ac ardderchog. D.Kennedy.

*Arddangosfa ffantastig o waith creadigol a diddorol iawn. Hyfryd gweld dychymyg plant a phobl ifanc yn fyw.*
Shân Evans.

Diolch am gyfle gwych i weld cynnyrch ein hieuenctid, yn bennaf ar ganfas.
Ardderchog – gwerth eu gweld!
J.Phillips.

Arddangosfa wych. John Llew.

**Most enjoyable. Well done to everyone.** K.Spiller.

**Crefftwaith diddorol iawn. Yn falch o fod yma.** Emrys.

Dydd Sadwrn 30 Mai

Arddangosfa arbennig. Cymaint o dalent. Hoff iawn o'r iâr!
Catrin & Peter Rowlands.

*Arddangosfa wych – wedi ei mwynhau lawer gwell na'r Genedlaethol!* Ann Brain.

**Ardangosfa hyfryd – roedd hi werth gadael y stondin i weld y talent sy'n cael ei arddangos yn fan hyn! Da iawn!** Shân James.

Arddangosfa ardderchog – talent! Llongyfarchiadau mawr ar yr arddangos a'r trefnu!
Siân Griffiths.

Arddangosfa wych eleni. Enillydd y Fedal Gelf yn haeddu pob canmoliaeth.
Dafydd a Mary.

*Arddangosfa wych, yn arbennig y ffotograffiaeth. Testun da iawn yn ysbrydoli'r genedl.*

Arddangosfa wych – pleser pur i'r llygad a'r meddwl. Go dda chi!

**Very impressed, amazed, at creativity of many of the children who made puppets – wonder if possible to do some performances using them! Also fantastic crochenwaith – world class!**
Glyn Cross

*Wedi enjoio, tro cyntaf i'r merched ddod i'r Eisteddfod! Arddangosfa wych a lliwgar dros ben.*

**Gwaith arbennig.**
**Diolch am y croeso gwych!!**
Eurfryn Lewis.

Mwynhau yr arddangosfa yn fawr iawn. Lliwgar ag yn llawn bywyd.
Llongyfarchiadau.
Beryl Vaughan.

Arddangofsa wych – ddim wedi gweld un cystal ers 1987.